Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Urbasba

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 12 Awst 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol.  Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN digidol 978-1-80364-665-7



© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o’r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
    - Ansawdd profiad y claf
    - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
    - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Urbasba, Coleg Caerdydd a’r Fro, Heol Dumballs, CF10 5BF ar 11 Mai 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Mae’r adroddiad (llawn) hwn wedi’i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae’n disgrifio’r holl ganfyddiadau sy’n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:
Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu triniaethau i'r cleifion mewn amgylchedd croesawgar a modern.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd croesawgar a modern

## Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r offer laser a sicrhau ei ddiogelwch parhaus. Roedd templedi dogfennau ymgynghori â chleifion a dogfennau cydsyniad cleifion yn unffurf ac yn cynnwys lefel briodol o fanylder.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod ffurflenni ymgynghori a chydsynio wedi'u llofnodi'n llawn gan y claf a gweithredwr y laser pan fo angen
- Sicrhau bod hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn cael ei adnewyddu bob tair blynedd

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau addas ar gyfer sicrhau diogelwch y laser a'i gynnal a'i gadw
- Ffurflenni templed ymgynghori a chydsynio priodol

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Ar y cyfan, canfuom fod staff y gwasanaeth yn frwdfrydig ac yn wybodus am y triniaethau a ddarperir ac yn awyddus i sicrhau bod triniaethau'n cael eu darparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig a gweithredwr y laser yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Staff brwdfrydig a gwybodus

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Ansawdd profiad y claf

### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom un holiadur wedi'i gwblhau.

Roedd y sylwadau a roddwyd gan y claf yn cynnwys:

*"Gwasanaeth ardderchog"*

**Hybu, diogelu a gwella iechyd**
Gwnaethom gadarnhau y gofynnwyd i'r cleifion ddarparu hanes meddygol cynhwysfawr cyn eu triniaeth gychwynnol ac eto cyn unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod yr hanes meddygol yn cael ei lofnodi gan y claf a gweithredwr y laser yn y rhan fwyaf o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu.

**Urddas a pharch**
Dywedwyd wrthym bod ymgynghoriadau a thriniaethau cleifion bob amser yn cael eu cynnal yn yr ystafell driniaeth briodol. Cyn ac ar ôl triniaeth, dywedwyd wrthym bod y cleifion yn cael amser i newid, a gwelsom fod arwyddion priodol ar y drysau er mwyn sicrhau preifatrwydd a diogelwch.

Dywedwyd wrthym y gall hebryngwr fynd gyda'r cleifion ar gyfer eu hymgynghoriad ond ni chaniateir i hebryngwyr aros yn yr ystafell driniaeth tra bod triniaethau'n cael eu darparu.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Roedd gwybodaeth i gleifion addas ar gael i'r cleifion ei darllen er mwyn eu helpu i benderfynu ar eu hopsiynau triniaeth ac i ddarparu manylion am y gwasanaeth iddynt. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ymgynghoriad cadarn yn cael ei ddarparu i'r cleifion cyn penderfynu ar driniaethau, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion a adolygwyd gennym.

**Gwybodaeth a chydsyniad cleifion**
Gwelsom fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedwyd wrthym bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn

wyneb, sy'n cynnwys trafodaeth am risgiau, buddion a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddymunir.

Roedd y ffurflen gydsynio o safon addas a gwnaethom gadarnhau y ceir cydsyniad cyn y driniaeth gychwynnol a chyn unrhyw driniaethau dilynol. Gwelsom fod cyngor ôl-ofal yn cael ei ddarparu i'r cleifion yn dilyn eu triniaeth.

Gwnaethom gadarnhau bod y ffurflenni ymgynghori a chydsynio wedi'u llofnodi gan y claf a gweithredwr y laser yn y rhan fwyaf o'r cofnodion y gwnaethom eu hadolygu. Fodd bynnag, canfuom fod nifer bach o fylchau yn rhai o'r rhain. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi yn ôl yr angen.

**Cynllunio a darparu gofal**

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, cesglir hanes meddygol y cleifion i sicrhau addasrwydd y driniaeth a ddewiswyd.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a chanfod tystiolaeth o safon dda o gadw cofnodion, a oedd yn cwmpasu pob rhan o daith y claf. Roedd hyn yn cynnwys manylion yr ymgynghoriad, cydsyniad cychwynnol a chydsyniad ychwanegol, a risgiau a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddewiswyd.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ar y llawr daear ac yn gyffredinol, mae'n hygyrch i bawb.

Pwysleisiodd y gwasanaeth fod triniaethau yn hygyrch ac yn agored i bob darpar glaf. Gwnaethom nodi bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a bod hyfforddiant staff gorfodol wedi'i gwblhau.

Roedd y gwasanaeth yn dangos dealltwriaeth sensitif o anghenion grwpiau penodol o gleifion, a rhoddwyd enghraifft i ni o achos pan gynhaliodd y gwasanaeth drafodaethau priodol â chlaf trawsrywiol i sicrhau bod triniaeth ddiogel ac effeithiol yn cael ei darparu er mwyn diwallu ei anghenion unigol.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Canfuom fod gan y gwasanaeth weithdrefn a pholisi cwyno priodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod adborth yn cael ei geisio drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac adolygiadau ar-lein a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym fod adborth anffurfiol yn cael ei groesawu a'i fod yn cael ei fwydo'n ôl i'r rheolwr cofrestredig i'w ystyried.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Roedd sticeri profi dyfeisiau cludadwy i'w gweld ar yr holl beiriannau perthnasol ac roeddent wedi'u hadolygu o fewn amserlen briodol. Gwelsom fod cebl estynedig newydd ar gyfer y peiriant laser wedi'i ddarparu gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau yn dilyn gwaith cynnal a chadw diweddar.

Gwelsom fod diffoddwyr tân wedi cael eu hadolygu o fewn y 12 mis diwethaf a bod marsial tân wedi'i neilltuo ar gyfer y safle. Roedd asesiad risg tân cryno wedi'i gynnwys yn asesiad risg y cynghorydd amddiffyn rhag laserau, a dywedwyd wrthym bod tîm ystadau'r coleg wedi cynnal asesiad risg tân cyffredinol . Gwnaethom gynghori'r gwasanaeth i sicrhau bod copïau o'r gwaith papur perthnasol yn cael eu cadw'n lleol ar y safle.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael ar y safle a bod pobl wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf yn y coleg ehangach a fyddai'n ymateb pe bai angen.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod pob rhan o'r gwasanaeth i'w gweld yn lân ac yn fodern.

Disgrifiodd y staff sut yr oedd ystod o drefniadau rheoli heintiau addas wedi'u rhoi ar waith. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio menig bob amser, taflenni papur tafladwy a llieiniau ffres, mesurau hylendid dwylo priodol a glanweithio darnau llaw y peiriant laser a soffas y cleifion ar ôl eu defnyddio.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod newidiadau penodol wedi'u gwneud mewn ymateb i COVID-19, gan gynnwys defnyddio masgiau, darparu triniaethau i un cleient ar unrhyw adeg benodol a gofyn cwestiynau sgrinio symptomau cyn darparu triniaeth. Roedd y staff yn dal i gynnal profion llif untro rheolaidd.

Roedd trefniadau gwastraff clinigol priodol ar waith o dan gontract gyda darparwr allanol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed**
Gwelsom fod gweithdrefn ddiogelu glir ar waith i’r staff ei dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Roedd y weithdrefn yn cynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol ac roedd y staff wedi'u hyfforddi i lefel briodol.
Ni ddarperir unrhyw driniaethau i blant a gofynnir i’r cleifion beidio â dod â phlant i'w hapwyntiad.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom ystyried sut roedd y cyfarpar laser a'r dogfennau cysylltiedig wedi'u cynnal drwy gydol y pandemig. Canfuom y canlynol:

- Penodwyd cynghorydd amddiffyn rhag laserau, a disgrifiodd y staff fod ganddynt berthynas dda â'r cynghorydd amddiffyn rhag laserau pe bai angen ceisio'i gyngor ar ddefnyddio'r offer laser yn ddiogel
- Roedd rheolau lleol wedi'u hadolygu gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau o fewn y 12 mis diwethaf er mwyn cadarnhau eu haddasrwydd parhaus
- Roedd offer laser wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar a chadarnhaodd y staff fod unrhyw bryderon ynghylch offer yn cael eu huwchgyfeirio drwy eu cynghorydd amddiffyn rhag laserau.

Gwelsom fod allweddi'n cael eu cadw i ffwrdd o'r peiriant laser pan nad oeddent yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu storio'n ddiogel.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelsom dystiolaeth yn dangos bod gweithredwr y laser wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[1] a hyfforddiant gwneuthurwr ar ddefnyddio'r peiriant laser. Roedd hyn yn cynnwys ardystiad laser lefel 4 a golau pwls dwys. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod yr hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn cael ei gwblhau bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'r arferion gorau.

Gwnaethom adolygu'r protocolau triniaeth a chanfod eu bod yn gyfredol ac wedi'u hadolygu gan weithiwr proffesiynol cofrestredig y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Gwelsom fod offer amddiffyn llygaid ar gael i bob claf a gweithredwr. Roedd yr amddiffyniad llygaid wedi'i labelu'n glir ar gyfer peiriant penodol ac roedd mewn cyflwr digonol.

Roedd cloeon wedi'u gosod yn yr ystafelloedd triniaeth i sicrhau urddas a diogelwch y cleifion tra bod offer laser yn cael ei ddefnyddio. Roedd arwyddion priodol i'w gweld ar ddrws pob ystafell driniaeth i atgoffa'r staff a'r ymwelwyr.

Gwelsom fod angen gwneud prawf patsh o leiaf 72 awr cyn darparu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod hyn yn ofynnol ar gyfer pob triniaeth, a gwnaethom gadarnhau bod hyn wedi'i gofnodi yng nghofnod y claf.

---

[1] Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn darparu sylfaen ar gyfer defnyddio peiriannau laser a pheiriannau golau pwls dwys yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd gwybodaeth ôl-ofal ysgrifenedig ar gael i'r cleifion, y gallent ei chadw, am atal heintiau ac i'w helpu i wella.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd y staff yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r triniaethau a ddarperir ac roeddent yn frwdfrydig am eu maes ymarfer. Mae Urbasba yn rhan o'r coleg ehangach a'i ddarpariaeth ddysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ac yn hyfforddi ym maes harddwch a therapïau cyflenwol.

**Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth bod cofnodion yn cael eu cadw'n dda ar y cyfan. Roedd y sampl o gofnodion a adolygwyd yn ddigon manwl ac wedi'u cynnal yn addas ar gyfer cleifion newydd a'r cleifion a oedd yn dychwelyd mewn modd clir a chyson. Roedd copïau caled o'r ffeiliau'n cael eu cadw'n ddiogel ar y safle.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Mae'r gwasanaeth yn cael ei oruchwylio gan reolwr cofrestredig AGIC ac mae un gweithredwr laser sy'n darparu triniaethau y telir amdanynt i aelodau'r cyhoedd.

Roedd gan y gwasanaeth nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom adolygu sampl o'r rhain a chanfod eu bod yn diwallu anghenion y gwasanaeth yn gyffredinol. Oherwydd bod y gwasanaeth yn gweithredu o fewn strwythur ehangach y coleg, gwnaethom gynghori'r gwasanaeth i sicrhau bod y dogfennau perthnasol sy'n ofynnol at ddibenion rheoleiddio yn cael eu cadw'n lleol i sicrhau cydymffurfedd â'r rheoliadau ac i sicrhau eu bod ar gael i'w defnyddio yn ystod arolygiadau.

Cadarnhaodd y staff fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei ddarparu drwy'r Coleg.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Cadarnhaodd y staff na fu unrhyw bryderon na digwyddiadau hyd at ddyddiad yr arolygiad. Gwnaethant ddisgrifio'u proses gwyno a chanfuom fod y weithdrefn yn briodol, a bod AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol. Roedd staff y gwasanaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran hysbysu AGIC am unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau difrifol[2].

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu sefydliadol**

Gwnaethom nodi bod y gwasanaeth wedi cyflogi aelodau newydd o staff yn ddiweddar a'i fod yn y broses o ddatblygu ei weithlu.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi darparu llwyfan hyfforddi ar-lein i'r staff er mwyn datblygu eu sgiliau mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys cydymffurfedd, gwasanaethau cwsmeriaid a'r gyfraith. Darparwyd hyfforddiant penodol er mwyn galluogi'r staff i ddarparu triniaethau laser a golau pwls dwys yn y pen draw.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Disgrifiodd y staff drefniadau recriwtio addas ar gyfer cyflogi staff ac adolygu'r staff yn barhaus. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gwiriadau priodol cyn cyflogi a chadarnhau hyfforddiant staff cyn iddynt ddarparu unrhyw driniaethau.

---

[2] www.agic.org.uk/rhoi-gwybod-i-ni-am-ddigwyddiad

Gwelsom dystiolaeth fod gan y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser ill dau lefel briodol o dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod y tystysgrifau hyn yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd i sicrhau addasrwydd y staff i gyflawni eu rolau.

Gwnaethom gadarnhau bod strwythur datblygu staff addas ar waith a bod cyfleoedd i ofyn am hyfforddiant a datblygiad allanol os oedd angen. Dywedodd y staff wrthym fod arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy’n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth:

## Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Urbasba**

**Dyddiad yr arolygiad:** **11 Mai 2022**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu llofnodi a'u cydlofnodi fel sy'n ofynnol fel rhan o'r broses ymgynghori a chydsynio. | Safon Ofynnol Genedlaethol: 20<br><br>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011: Adran 23 | Pob gweithredwr i sicrhau bod pob dogfen yn cael ei llofnodi'n llawn a'i chydlofnodi gan bob claf ar bob ffurflen ymgynghori a chydsynio | L McCarthy - Gweithredwr<br><br>R Jones - Rheolwr | Dechrau ar unwaith 28/6/22 |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn cael ei gwblhau bob tair blynedd i sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'r arferion gorau. | Safon Ofynnol Genedlaethol: 24<br><br>Rheoliadau: Adran 21 | Dylid sicrhau bod dyddiadau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth pob gweithredwr, o'r hyfforddiant cychwynnol a phob hyfforddiant craidd wedi hynny, yn cael ei gofnodi, bod y staff yn | L McCarthy - Gweithredwr<br><br>R Jones - Rheolwr | Dyddiadau i'w nodi ar unwaith ar ôl cwblhau'r hyfforddiant cychwynnol, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cael eu hailhyfforddi, a'u ddiweddaru bob tair blynedd o'r dyddiadau hynny. Hyfforddiant i'w gynnal gyda'r gwneuthurwr fel diweddariad hyfforddiant ar-lein / ar y safle. I'w gyflawni gyda chwmni Skyncare. | | ac yn barhaus bob tair blynedd wedi hynny. |
| Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd i sicrhau addasrwydd y staff i gyflawni eu rolau. | Safon Ofynnol Genedlaethol: 25<br><br>Rheoliadau: Adran 21 | Dyddiadau gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y Rheolwr a'r holl weithredwyr i'w nodi ar unwaith. Dylid sicrhau bod Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd yn unol â hynny. | L McCarthy - Gweithredwr<br><br>R Jones - Rheolwr | Dyddiadau gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael eu nodi ar unwaith |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** L McCarthy

**Swydd:** Gweithredwr/Rheolwr

**Dyddiad:** 28/6/22